

# Trefn Dysgu ar Leoliad

Gweithdrefn 03: 2018 Fersiwn 1.1

Yn dod i rym: 1 Mai 2018



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

<b>Dyddiad</b>	<b>Yn Disodli</b>	<b>Disgrifiad o'r Newid</b>
1 Mai 2018.	Fersiwn 2017.	Diweddariad cyffredinol.

<b>Perchennog y Ddogfen</b>	<b>Cymeradwywyd Gan</b>	<b>Dyddiad y Cymeradwywyd</b>	<b>Amllder Adolygu</b>
Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	11 Ebrill 2018.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

## Trefn Dysgu ar Leoliad

Mae hyn yn berthnasol i bob lleoliad a drefnir fel rhan ffurfiol o raglen israddedig neu ôl-radd.



### Gwybodaeth am y drefn hon

1. Lleoliad yw cyfnod o ddysgu wedi'i gynllunio, fel rheol y tu allan i'r brifysgol, lle mae'r deilliannau dysgu'n rhan o fodiwl neu raglen academiaidd. Mae lleoliadau'n cynnwys blynyddoedd rhyngosod, rhaglenni astudio dramor a lleoliadau haf. Rhaid i leoliadau gael eu hasesu fel y nodir ym Manyleb y Rhaglen neu ddisgrifiad y modiwl. Rhaid i raglenni a modiwlau, yn cynnwys deilliannau dysgu, gael eu cymeradwyo a'u hadolygu gan ddefnyddio gweithdrefnau'r brifysgol, fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni. Rhaid i raglenni a modiwlau gael eu hasesu fel y nodir yn y Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.
2. Mae'r drefn hon (a gynhoir yn Atodiad A) yn sicrhau bod yna systemau cadarn i gymeradwyo a rheoli lleoliadau myfyrwyr, sy'n rhan ffurfiol o raglenni academiaidd y brifysgol. Trwy lenwi'r Ffurflen Leoliad, sy'n rhan o'r drefn hon, bydd ysgolion, myfyrwyr a darparwyr lleoliadau yn cadarnhau eu bod yn cydnabod eu cyfrifoldebau ac y byddant yn eu cyflawni. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys iechyd, diogelwch ac yswiriant.
3. Nid yw'r drefn hon yn berthnasol i'r canlynol:
  - Dysgu y tu allan i'r brifysgol nad yw'n rhan ffurfiol o raglen academiaidd, er enghraifft, gwaith gwirfoddol, gwaith rhan-amser neu waith gwyliau.
  - Myfyrwyr sydd wedi gohirio eu hastudiaethau dros dro.
4. Gall ysgolion addasu'r prosesau a'r Ffurflen Leoliad a ddisgrifir yn y Drefn hon, ond rhaid i drefniadau diwygiedig yr ysgol gadw'r elfennau a ddisgrifir yn y Ffurflen Leoliad a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu.
5. Ni ddylai staff neu fyfyrwyr gytuno i unrhyw ymwrthodiadau, er enghraifft, o ran darparu yswiriant, heb ofyn am gyngor gan Swyddog Yswiriant y Brifysgol.
6. Mae gwybodaeth berthnasol ar gael hefyd yn y canlynol:
  - Y Rheoliadau Cyffredinol i Fyfyrwyr.
  - Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig.
  - Y Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni.
  - Y Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl.
  - Canllawiau Iechyd a Diogelwch UCEA ar Leoli Myfyrwyr Addysg Uwch - ar gael ar wefan UCEA (<http://www.ucea.ac.uk/en/publications/index.cfm/HSplace>).
  - Dogfennau'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer lleoliadau, megis rhaglen gyfnewid Erasmus.

### Cymeradwyo Lleoliad

7. Bydd y cyfrifoldeb am ddod o hyd i leoliad yn amrywio yn ôl y rhaglen. Weithiau mae'r brifysgol yn chwilio am leoliadau ac weithiau'r myfyrwyr eu hunain sy'n gwneud hynny.

Os disgwylir i fyfyrwyr gael hyd i'w lleoliad eu hunain, rhaid rhoi gwybod iddynt am hynny cyn iddynt ddechrau'r rhaglen a rhaid rhoi cyngor iddynt ar sut i gael hyd i leoliad. Rhaid i fyfyrwyr hefyd ystyried goblygiadau ariannol mynd i'r lleoliad (yn cynnwys unrhyw effaith ar ffioedd a benthyciadau). Rhaid i ysgolion ystyried canllawiau ar deithio gan y Swyddfa Dramor yn fuan wrth wneud trefniadau ar gyfer lleoliad tramor.

8. Os caiff lleoliad gorfodol ei ganslo neu ei derfynu am resymau tu hwnt i reolaeth myfyriwr, yn cynnwys darparwr y lleoliad yn rhoi'r gorau i gynnig y lleoliad, mae'n rhaid i ysgolion roi cyfle i'r myfyriwr gael gwneud lleoliad arall neu brofiad dysgu arall o'r un gwerth. Yr unig eithriad yw lle na all ysgol gael hyd i ddewisiadau eraill oherwydd mai dim ond nifer fechan iawn o leoliadau lleoliad addas sydd ar gael ac na fydd profiad dysgu arall yn galluogi'r myfyriwr i gwblhau deilliannau dysgu'r rhaglen. Mewn achosion o'r fath, rhaid i fyfyrwyr gael cyfle i drosglwyddo i raglen arall yn y brifysgol.
9. Rhaid i ysgolion gael aelod(au) staff, megis Cydlynnydd Lleoliadau, sy'n gyfrifol am drefnu ac/neu gymeradwyo lleoliadau.
10. Rhaid i ysgolion sicrhau y gall unrhyw ddarparwr lleoliad gyflawni'r gofynion a nodir yn y Drefn hon ac unrhyw feini prawf a bennir gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
11. Rhaid i ysgolion gadw mewn cysylltiad â myfyrwyr sydd ar leoliad i adolygu cynnydd academaidd, i asesu medrusrwydd proffesiynol, neu i gadarnhau bod trefniadau iechyd a diogelwch priodol wedi'u gwneud. Gall ysgolion drefnu i staff ymweld â myfyrwyr. Gellir defnyddio cyswllt drwy ffôn ac e-bost yn lle ymweliadau, neu yn ychwanegol atynt.
12. Cyn dechrau'r lleoliad rhaid i'r myfyriwr, darparwr y lleoliad a chynrychiolydd yr ysgol lenwi a llofnodi'r Ffurflen Leoliad (fel yn y Drefn hon). Rhaid i risgiau iechyd a diogelwch posibl gael eu hystyried yn ystod y broses hon, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir gan Ganllawiau UCEA ar Leoliadau, fel bo'n briodol. Rhaid i ysgolion gadw copi o'r ffurflen.
13. Ar ôl i'r Ffurflen Cynnig Lleoliad gael ei llenwi, rhaid anfon copi o'r ffurflen at y myfyriwr gyda chadarnhad bod y lleoliad wedi'i gymeradwyo. Rhaid i'r cadarnhad nodi y gall y myfyriwr gwblhau'r lleoliad fel y caiff ei ddisgrifio yn y Ffurflen Leoliad. **Os bydd myfyriwr yn dechrau mewn lleoliad heb gadarnhad ysgrifenedig, ni chaiff y lleoliad ei gydnabod gan y brifysgol ac NI FYDD yn dod dan yswiriant y brifysgol.**
14. Os yw'r lleoliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, rhaid i'r myfyriwr lenwi Ffurflen Yswiriant Teithio ar-lein y brifysgol a darparu copi i'r ysgol. Efallai y bydd angen i fyfyrwyr hefyd gadarnhau bod ganddynt y brechiadau angenrheidiol ar gyfer yr ardal/rhanbarth y maent yn bwriadu mynd iddo.
15. Rhaid i'r ysgol gadw manylion cyswllt mewn argyfwng a lleol ar gyfer y darparwr lleoliad a'r myfyriwr.
16. Rhaid i ysgolion gadw cofnod ysgrifenedig o bob lleoliad yn unol â pholisïau'r brifysgol ar gadw data.

### **Rheoli Problemau**

17. Rhaid ystyried pryderon myfyrwyr gan ddefnyddio'r Drefn Cwynion Myfyrwyr. Yn y lle cyntaf, dylai myfyrwyr drafod y pryderon gyda staff yn y lleoliad. Os nad yw hynny'n briodol, neu os yw'r sefyllfa'n parhau heb ei datrys, dylai'r myfyriwr gysylltu â'r ysgol. Rhaid tynnu sylw darparwr y lleoliad at unrhyw gwynion am aflonyddu a/neu wahaniaethu a wneir gan fyfyriwr ar leoliad.

18. Os yw myfyriwr mewn sefyllfa sy'n codi pryderon ynghylch lles ac/neu ddiogelwch personol, rhaid cynghori'r myfyriwr i roi'r gorau i'r lleoliad dros dro. Os nad yw rhoi'r gorau i'r lleoliad dros dro yn bosibl (er enghraifft, os yw'r myfyriwr ar leoliad tramor ac nad oes lle arall ar gael), gall myfyrwyr derfynu'r lleoliad ond dylent roi gwybod i'r ysgol am hynny cyn gynted â phosibl. Er mai lles a diogelwch personol y myfyriwr yw'r flaenoriaeth, rhaid i fyfyrwyr fod yn barod i gyfiawnhau eu gweithredoedd os byddant yn gadael lleoliad dros dro, neu ei derfynu, heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr ysgol.
19. Os gadewir lleoliad dros dro neu ei derfynu, neu os nodir pryderon gan fyfyrwr ar ôl bod mewn lleoliad, rhaid i'r ysgol wneud adolygiad i benderfynu p'un a ddylid tynnu myfyrwyr eraill o'r lleoliad a ph'un a ddylid defnyddio'r lleoliad hwnnw yn y dyfodol. Os bydd yr asesiad yn nodi risg o bwys, rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu a fydd yn rhaid penderfynu p'un ai i hysbysu ysgolion eraill am y risgiau.
20. Rhaid i unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad myfyriwr tra ar leoliad gael eu hystyried dan drefn ddisgyblaethol y brifysgol, Gweithdrefn Uniondeb Academaidd ac/neu unrhyw drefniadau sy'n berthnasol i raglen y myfyriwr (er enghraifft, trefn addasrwydd i ymarfer). Rhaid hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio hefyd.
21. Dylai unrhyw argyfyngau gael eu rheoli'n unol â threfniadau brys a dwysáu'r brifysgol. Rhaid hysbysu'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio hefyd.

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) yn rhedeg cynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwnnw. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i'r OIA adolygu'r achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i'r OIA, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma:

<https://www.oiahe.org.uk/students>.

Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn i chi gwyno i'r OIA. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl ichi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nid oes dim camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig. Hyd yn oed os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn un, yma:

<https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters>.

I ddod â chwyn gerbron yr OIA, mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Gwyno'r OIA a honno wedi'i chwblhau cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at yr OIA.

**Prifysgol Bangor: Ffurflen Lleoliad**

Gall yr ysgol berthnasol yn y brifysgol lenwi Adran A, neu gall gwahanol rannau Adran A gael eu llenwi gan y myfyriwr, yr ysgol a'r darparwr lleoliad.

**Adran A: Enwau a Manylion Cyswllt** (Gweler Nodyn 1)

<b>Myfyriwr</b>			
Enw (gweler Nodyn 2)		Rhif Myfyriwr (gweler Nodyn 3)	
Cwrs Gradd			
Ysgol (gweler Nodyn 4)			
Rhif ffôn		E-bostiwch	

**Ysgol y Brifysgol** (gweler Nodyn 5)

Enw			
Teitl y swydd			
Ffôn		E-bostiwch	

**Darparwr y Lleoliad**

Enw (gweler Nodyn 6)			
Cyfeiriad			
Person cyswllt (gweler Nodyn 7)			
Teitl y swydd			
Ffôn		E-bostiwch	

**Adran B: Manylion y Lleoliad** (gweler Nodyn 8)

Rhaid i Adran B gael ei llenwi gan ddarparwr y lleoliad neu gan yr ysgol, os oes gan yr ysgol yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ateb y cwestiynau yn yr adran.

Dyddiadau'r lleoliad		O:	Cyflawni'r canlynol:
Cyfeiriad y lleoliad (os yw'n wahanol i'r cyfeiriad a roddwyd yn Adran A)			
Oriau gwaith (gweler Nodyn 9)			
Prif weithgareddau i'w gwneud tra ar leoliad (gweler Nodyn 10)			
Nodwch unrhyw beryglon a risgiau o bwys perthnasol i'r lleoliad (gweler Atodiad A Canllawiau UCEA)			
Oes gan y myfyriwr hawl i unrhyw wyliau yn ystod y lleoliad?		Oes / Nac oes	
Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:			
Oes rhaid i'r myfyriwr gael ei gar ei hun?		Oes / Nac oes	
Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod, yn cynnwys manylion am unrhyw ofynion Yswiriant at Ddefnydd Busnes:			
Oes rhaid i'r myfyriwr fedru siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg?		Oes / Nac oes	
Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:			

<p>Ydy yswiriant priodol wedi'i gadarnhau? (gweler Nodyn 11)</p> <p>Os mai 'Ydi' yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p> <p>Yn achos lleoliadau yn y Deyrnas Unedig, rhaid i'r darparwr roi manylion Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr. Yn achos lleoliadau tramor, rhaid i'r myfyriwr gadarnhau bod Ffurflen Yswiriant Teithio ar-lein y brifysgol wedi cael ei llenwi.</p>	<p>Ydi [ ] Nac ydi [ ]</p>
<p>A oes ar y myfyriwr angen unrhyw gynefino/hyfforddiant iechyd a diogelwch? (gweler Nodyn 12)</p> <p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p> <p>Darperir gan yr Ysgol cyn y lleoliad:</p> <p>Darperir gan ddarparwr y lleoliad:</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>
<p>Oes rhaid i'r myfyriwr gael gwiriad DBS? (gweler Nodyn 13)</p> <p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>
<p>Oes gan y myfyriwr unrhyw salwch neu gyflyrau y mae'n rhaid eu trafod cyn dechrau'r lleoliad?</p> <p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>
<p>A oes ar y myfyriwr angen imiwneiddio/brechiadau?</p> <p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>

<p>A oes modd i'r lleoliad arwain at gwestiynau/cyfyngiadau'n ymwneud â Hawliau Eiddo Deallusol? (Gweler Nodyn 14)</p>	<p>Oes / Nac oes</p>
<p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	
<p>A oes ar y myfyriwr angen unrhyw addasiadau rhesymol tra ar leoliad? (gweler Nodyn 15)</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>
<p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	
<p>A oes unrhyw gamau gweithredu eraill y dylai'r myfyriwr eu cyflawni cyn dechrau'r lleoliad (gweler Nodyn 16)?</p>	<p>Oes [ ] Nac oes [ ]</p>
<p>Os mai Oes yw'r ateb, rhowch fanylion isod:</p>	



**Adran C: Datganiadau a Llofnodion**

Bydd y Brifysgol, Darparwr y Lleoliad a'r Myfyriwr yn cynnal y lleoliad fel y disgrifir yn y ffurflen hon, a:

**Bydd y brifysgol (trwy'r ysgol academiaidd a enwir ar y ffurflen hon) yn:**

- Paratoi'r myfyriwr ar gyfer y lleoliad, fel y nodwyd ar y ffurflen hon.
- Ymateb i unrhyw bryderon rhesymol ynghylch y lleoliad gan y myfyriwr neu'r darparwr lleoliad.

**Bydd y darparwr lleoliad yn:**

- Trin y myfyriwr (boed yn gyflogedig ai peidio) yn yr un modd ag aelodau staff o ran gofalu am eu hiechyd, diogelwch a'u lles.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar iechyd a diogelwch a rhoi hyfforddiant i'r myfyriwr gyda threfniadau iechyd a diogelwch yn y gweithle a dulliau gweithio, yn cynnwys rhagofalon a pheryglon tân.
- Darparu deunyddiau ac offer priodol, os oes angen, i gyflawni'r gwaith yn ddiogel.
- Sicrhau bod asesiad risg addas wedi'i wneud ar y gweithgareddau sydd i'w cyflawni gan y myfyriwr a bod y myfyriwr yn gwybod am ei gynnwys.
- Hysbysu'r brifysgol am ddamweiniau neu ddigwyddiadau perthnasol i'r myfyriwr, yn cynnwys unrhyw ddigwyddiadau mawr.

**Bydd y myfyriwr:**

- Cadw at reoliadau'r brifysgol ac at unrhyw ofynion a bennir gan y darparwr lleoliad.
- Cyflawni'r rhaglen waith a bennir gan y darparwr lleoliad dan oruchwyliaeth y goruchwyliwr/goruchwylwyr penodedig.
- Rhoi gwybod i'r darparwr lleoliad am unrhyw bryderon iechyd neu anabledd a fydd angen addasiadau efallai.
- Rhoi gwybod i'w darparwr lleoliad am unrhyw bryderon ynghylch iechyd a diogelwch yn eu lleoliad ac, os yw'n angenrheidiol, gadael y lleoliad os ydynt yn teimlo bod eu hiechyd a'u diogelwch mewn perygl. Rhoi gwybod i'r brifysgol am y rhain yn syth.

**Llofnodion**

<b>Myfyriwr</b>	..... Dyddiad: .....
<b>Darparwr y Lleoliad</b>	..... Dyddiad: .....
<b>Ysgol</b>	..... Dyddiad: .....

## **Nodiadau ar gyfer y Ffurflen Lleoliad**

Yn y nodiadau hyn yr 'Ysgol' yw'r ysgol academaidd y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi ym Mangor.

### **Adran A.**

1. Mewn argyfwng, gall y brifysgol gysylltu â'r sawl a enwyd gan y myfyriwr, sydd yn y cofnod myfyriwr a gedwir gan y brifysgol.
2. Rhaid i enw'r myfyriwr gael ei gofnodi yn union fel mae'n ymddangos yng nghofnodion y brifysgol.
3. Hwn yw rhif adnabod naw digid y myfyriwr yn y brifysgol.
4. Hon yw'r ysgol y mae'r myfyriwr yn astudio ynddi yn y brifysgol.
5. Dylai'r adran hon gael ei llenwi gan rywun a awdurdodwyd gan yr ysgol.
6. Gall enw'r darparwr lleoliad fod yn enw cwmni neu le arbennig (e.e. ysbyty)
7. Enw'r sawl fydd yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt i'r brifysgol tra bydd y myfyriwr ar leoliad. Disgwylir y gall y myfyriwr hefyd gysylltu â'r unigolyn hwn, ond gall gael cysylltiadau eraill lleol pan fydd y lleoliad yn dechrau.

### **Adran B.**

8. Rhaid i Adran B gael ei llenwi gan yr ysgol. Disgwylir y bydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros gysylltu â'r darparwr lleoliad fel bo'r angen i lenwi'r ffurflen yn gywir. Os oes cytundeb ar wahân sy'n disgrifio'r lleoliad, gellir cynnwys cyfeiriadau at y cytundeb hwnnw yn hytrach nag ymatebion manwl.
9. Dylid rhoi manylion oriau gwaith arferol, yn cynnwys unrhyw ofynion ar gyfer gwaith penwythnos.
10. Rhaid i'r gweithgareddau yn ystod y lleoliad roi cyfle i fyfyriwr gyflawni deilliannau dysgu'r rhaglen neu fodiwl. Rhaid i'r ysgol gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gweithgareddau a gynlluniwyd yn gyson â'r deilliannau dysgu y bwriedir eu cyflawni.
11. Disgwylir mai dim ond darparwyr lleoliad yn y Deyrnas Unedig yn unig all ddarparu tystiolaeth bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr. Os mai 'ydyw' yw'r ateb i leoliad yn y DU, gellir darparu enw'r yswiriwr a'r rhif tystysgrif. Os mai 'ydyw' yw'r ateb i'r cwestiwn am leoliad tramor, rhaid rhoi manylion i gadarnhau bod ffurflen ar-lein y brifysgol ar gyfer Yswiriant Teithio wedi cael ei llenwi a'i chymeradwyo. Os mai 'na' yw'r ateb i'r cwestiwn, ni ddylai'r lleoliad gael ei gymeradwyo gan yr ysgol.
12. Os mai 'ydyw' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid i'r manylion gyfeirio at ddiben yr hyfforddiant a sut y caiff ei ddarparu, h.y. gan yr ysgol ac/neu'r darparwr lleoliad.
13. Os mai 'ydyw' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid i'r manylion nodi p'un ai'r brifysgol neu'r darparwr lleoliad sy'n rhaid trefnu i'r gwiriad gael ei wneud.
14. Os gall y lleolid arwain at gwestiynau/cyfyngiadau'n ymwneud ag IPR, dylai'r materion gael eu trafod â swyddogion y brifysgol cyn i'r lleoliad ddechrau.
15. Rhaid i unrhyw addasiadau fod yn unol â'r hyn a argymhellwyd yng Nghynllun Personol Cefnogi Dysgwr (PLSP) y myfyriwr, a rhaid i unrhyw addasiadau ychwanegol a nodwyd wrth gynllunio'r lleoliad gael eu trafod â'r Gwasanaeth Anabledd fel y gellir diwygio'r PLSP.
16. Gellir cynnwys unrhyw gamau gweithredu ychwanegol yma, yn cynnwys dogfennau y mae'n rhaid i'r myfyriwr eu darllen, unrhyw gyrsiau y mae'n rhaid eu cwblhau, unrhyw gyfarfodydd briffio y mae'n rhaid mynd iddynt neu unrhyw

ofynion iechyd a diogelwch penodol yn gysylltiedig â'r lleoliad. Gellir defnyddio'r adran hon hefyd i ddisgrifio unrhyw faterion cyfreithiol neu foesegol y mae'n rhaid eu hystyried cyn dechrau'r lleoliad.

### Atodiad A. Siart Lif Proses Cymeradwyo Lleoliad

